OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 3183 (Cy.299)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Rheoliadau Gwerthoedd Terfyn Ansawdd Aer (Cymru) 2002

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *17 Rhagfyr 2002* |
| *Yn dod i rym - -* | *31 Rhagfyr 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 29 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**) ac is-adran (2) o adran 2 o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**), a chan ei fod wedi'i ddynodi at ddibenion yr is-adran honno gan Erthygl 2 o Orchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 3) 2000(**3**) mewn perthynas â mesurau sy'n ymwneud ag asesu a rheoli ansawdd aer amgylchynol a chydymffurfio â gwerthoedd terfyn, gwerthoedd targed, ac amcanion, ansawdd aer, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwerthoedd Terfyn Ansawdd Aer (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 31 Rhagfyr 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

### Diffiniadau

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "aer amgylchynol" ("*ambient air*") yw aer y tu allan yn y troposffer, heb gynnwys gweithleoedd;

ystyr "asesu" ("*assessment*") yw unrhyw ddull a ddefnyddir i fesur, cyfrifo, darogan neu amcangyfrif lefel llygryn perthnasol yn yr aer amgylchynol;

ystyr "crynhoad" ("*agglomeration*") yw parth â chrynodiad poblogaeth o fwy na 250,000 o drigolion neu, os yw crynodiad y boblogaeth yn 250,000 o drigolion neu lai, dwysedd poblogaeth am bob $km^2$ y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn credu bod yna gyfiawnhad dros yr angen i asesu neu reoli'r aer amgylchynol ar ei chyfer;

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

(**1**) 1998 p.38.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) O.S. 2000/2812.

ystyr "digwyddiadau naturiol" ("*natural events*") yw echdoriadau llosgfynyddoedd, gweithgarwch seismig, gweithgarwch geothermol, tanau tir gwyllt, gwyntoedd cryfion neu ailddal neu gludo gronynnau naturiol o barthau sych yn yr atmosffer;

mae i "gwerth terfyn" ("*limit value*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 4(1);

ystyr "lefel" ("*level*") yw crynodiad llygryn perthnasol yn yr aer amgylchynol;

ystyr "llygrynnau perthnasol" ("*relevant pollutants*") yw sylffwr deuocsid, nitrogen deuocsid ac ocsidau nitrogen, mater gronynnol, plwm, bensen, a charbon monocsid;

ystyr "mesuriadau sefydlog" ("*fixed measurements*") yw mesuriadau a gymerir ar safleoedd sefydlog naill ai'n ddi-dor neu drwy samplu ar hap, a nifer y mesuriadau yn ddigon mawr i ganiatáu darganfod y lefelau a welir;

ystyr "ocsidau nitrogen" ("*oxides of nitrogen*") yw swm yr ocsid nitrig a'r nitrogen deuocsid wedi'u hadio fel rhannau am bob biliwn ac wedi'i fynegi fel nitrogen deuocsid mewn microgramau i bob metr ciwbig;

ystyr "$PM_{2.5}$" yw mater gronynnol sy'n mynd drwy fewnfa dethol-maint ag ataliad effeithlonrwydd o 50% ar ddiamedr erodynamig o 2.5 mm;

ystyr "$PM_{10}$" yw mater gronynnol sy'n mynd drwy fewnfa dethol-maint ag ataliad effeithlonrwydd o 50% ar ddiamedr erodynamig o 10 mm;

ystyr "parth" ("*zone*") yw rhan o Gymru a ddangosir ar fap a gyhoeddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 3 Rhagfyr 2002, a adneuwyd yn swyddfeydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Adran Diogelu'r Amgylchedd, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ;

mae i "trothwy asesu isaf" ("*lower assessment threshold*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 6(5);

mae i "trothwy asesu uchaf" ("*upper assessment threshold*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 6(5); ac

mae i "trothwy rhybuddio" ("*alert threshold*") yr ystyr a roddir gan reoliad 9(2).

**Cyfrifoldeb dros weithredu Cyfarwyddeb Fframwaith Aer**

**3.** At ddibenion Erthygl 3 (gweithredu a chyfrifoldebau) o Gyfarwyddeb y Cyngor 96/62/EC ar asesu a rheoli ansawdd aer amgylchynol(**4**) y Cynulliad Cenedlaethol yw'r awdurdod cymwys yng Nghymru dros y canlynol—

(a) gweithredu'r Gyfarwyddeb honno;

(b) asesu ansawdd aer amgylchynol;

(c) cymeradwyo dyfeisiadau mesur (dulliau, cyfarpar, rhwydweithiau a labordai);

(ch) sicrhau cywirdeb mesur drwy ddyfeisiadau mesur a gwirio bod y dyfeisiadau hynny yn parhau'n gywir, yn benodol drwy reoli ansawdd yn fewnol a gyflawnir yn unol â safonau sicrwydd ansawdd cymwysadwy, gan gynnwys safonau Ewropeaidd;

(d) dadansoddi dulliau asesu; a

(dd) cydlynu rhaglenni sicrwydd ansawdd ledled y Gymuned Ewropeaidd yng Nghymru, ac eithrio i'r graddau y mae'r cydlynu hwnnw yn golygu cyfathrebu â'r Gymuned Ewropeaidd.

**Dyletswydd i sicrhau bod ansawdd aer amgylchynol yn cael ei gwella**

**4.**—(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gymryd y mesurau sy'n angenrheidiol i sicrhau ym mhob parth ledled Cymru nad yw crynodiadau'r llygrynnau perthnasol yn yr aer amgylchynol, o'u hasesu yn unol â rheoliadau 5 i 8, yn uwch na'r gwerthoedd terfyn a nodir yn Atodlen 1—

(**4**) OJ Rhif L296, 21.11.96, t. 55.

(a) os pennir dyddiad yn yr Atodlen honno mewn perthynas â'r gwerth terfyn ar gyfer y llygryn hwnnw, o'r dyddiad hwnnw ymlaen;

(b) mewn unrhyw achos arall, o'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

(2) Rhaid i'r mesurau a gymerir—

(a) cymryd i ystyriaeth ymagwedd integredig at ddiogelu aer, dŵr a phridd;

(b) peidio â thorri deddfwriaeth y Gymuned ar ddiogelu diogelwch ac iechyd gweithwyr wrth eu gwaith; ac

(c) peidio â dwyn unrhyw effeithiau negyddol arwyddocaol ar yr amgylchedd yn yr Aelod-wladwriaethau eraill.

**Asesu ansawdd aer amgylchynol**

**5.** Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod ansawdd yr aer amgylchynol yn cael ei hasesu ym mhob parth mewn perthynas â phob un o'r llygrynnau perthnasol yn unol â rheoliadau 6 i 8.

**Dosbarthu parthau**

**6.**—(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ddosbarthu pob parth mewn perthynas â phob un o'r llygrynnau perthnasol yn ôl a yw'n ofynnol asesu ansawdd yr aer amgylchynol yn y parth hwnnw ar gyfer y llygryn hwnnw—

(a) drwy fesuriadau;

(b) drwy gyfuniad o fesuriadau a thechnegau modelu; neu

(c) drwy ddefnyddio technegau modelu neu dechnegau amcangyfrif gwrthrychol yn unig.

(2) Rhaid i fesuriadau gael eu defnyddio i asesu ansawdd yr aer amgylchynol mewn perthynas â llygryn perthnasol mewn parth—

(a) os yw'r parth yn grynhoad;

(b) os yw lefelau'r llygryn yn y parth rhwng y gwerthoedd terfyn perthnasol a'r trothwyon asesu uchaf; neu

(c) os yw lefelau'r llygryn hwnnw yn y parth yn uwch na gwerthoedd terfyn y llygryn hwnnw.

(3) Gellir defnyddio cyfuniad o fesuriadau a thechnegau modelu i asesu ansawdd yr aer amgylchynol mewn unrhyw barth mewn perthynas â llygryn perthnasol os yw lefelau'r llygryn hwnnw dros gyfnod cynrychioliadol yn is na'r trothwyon asesu uchaf perthnasol.

(4) Os yw lefelau llygryn perthnasol mewn unrhyw barth yn is na'r trothwyon asesu isaf perthnasol, caniateir defnyddio technegau modelu neu dechnegau amcangyfrif gwrthrychol yn unig i asesu lefelau'r llygryn hwnnw oni bai—

(a) mai crynhoad yw'r parth; a

(b) mai sylffwr deuocsid neu nitrogen deuocsid yw'r llygryn sy'n cael ei asesu.

(5) Rhaid penderfynu ar y trothwyon asesu uchaf ac isaf ar gyfer y llygrynnau perthnasol yn unol ag Atodlen 2.

(6) Os oes parth wedi'i ddosbarthu mewn perthynas â llygryn o dan baragraff (1)(a), gellir defnyddio technegau modelu i gydategu'r mesuriadau a gymerir er mwyn rhoi lefel ddigonol o wybodaeth am ansawdd yr aer amgylchynol mewn perthynas â llygryn perthnasol mewn parth.

(7) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol hefyd ddynodi parth a ddosbarthir o dan y rheoliad hwn mewn perthynas â llygryn perthnasol fel a ganlyn:

(a) os sylffwr deuocsid yw'r llygryn perthnasol, gellir dynodi'r parth o dan y paragraff hwn(**5**) os eir yn uwch na'r gwerthoedd terfyn yn y parth oherwydd crynodiadau sylffwr deuocsid yn yr aer amgylchynol oherwydd ffynonellau naturiol;

(b) os $PM_{10}$ yw'r llygryn perthnasol, gellir dynodi'r parth—

(i) o dan yr is-baragraff hwn(**6**) os bydd crynodiadau o $PM_{10}$ yn yr aer amgylchynol oherwydd digwyddiadau naturiol yn sylweddol uwch na'r lefelau cefndir arferol o ffynonellau naturiol;

(ii) o dan yr is-baragraff hwn(**7**) os bydd crynodiadau o $PM_{10}$ yn yr aer amgylchynol oherwydd ail?ddal gronynnau ar ôl i ffyrdd gael eu trin â thywod yn y gaeaf yn sylweddol uwch na'r lefelau cefndir arferol o ffynonellau naturiol.

### Adolygu dosbarthiadau

**7.**—(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol adolygu dosbarthiad pob parth o dan reoliad 6 o leiaf unwaith bob pum mlynedd yn unol â Rhan II o Atodlen 2.

(2) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol adolygu dosbarthiad unrhyw barth o dan reoliad 6 hefyd os ceir newidiadau arwyddocaol mewn gweithgarwch sy'n effeithio ar grynodiadau amgylchynol unrhyw un o'r llygrynnau perthnasol yn y parth.

(3) Yn y rheoliad hwn, mae "dosbarthiad" yn cynnwys unrhyw ddynodiad o dan reoliad 6(7).

### Dull asesu ansawdd aer amgylchynol

**8.**—(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod ansawdd yr aer amgylchynol yn cael ei hasesu ym mhob parth drwy ddilyn y dull penodedig ar gyfer pob llygryn perthnasol yn unol â'i ddosbarthiad cyfredol.

(2) Os oes parth wedi'i ddosbarthu o dan reoliad 6(1)(a) neu (b) mewn perthynas â llygryn perthnasol—

(a) rhaid i fesuriadau'r llygryn hwnnw gael eu cymryd ar safleoedd sefydlog naill ai'n ddi-dor neu drwy samplu ar hap; a

(b) rhaid i nifer y mesuriadau fod yn ddigon mawr i ganiatáu darganfod lefelau'r llygryn hwnnw yn gywir.

(3) Bydd Atodlen 3 yn effeithiol er mwyn penderfynu ar leoliad y pwyntiau samplu ar gyfer y llygrynnau perthnasol.

(4) Ar gyfer pob parth sydd wedi'i ddosbarthu o dan reoliad 6(1)(a), rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau, mewn perthynas â llygryn perthnasol, fod isafswm nifer y pwyntiau samplu sefydlog y penderfynwyd arnynt yn unol ag Atodlen 4 yn cael ei ddefnyddio i samplu crynodiadau'r llygryn hwnnw yn y parth hwnnw.

(5) Ar gyfer pob parth sydd wedi'i ddosbarthu o dan reoliad 6(1)(b), rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau, mewn perthynas â llygryn perthnasol, fod nifer y pwyntiau samplu sefydlog a ddefnyddir i samplu'r llygryn hwnnw yn y parth hwnnw, a dosbarthiad y technegau eraill o ran eu lleoliad, yn ddigon i ganfod crynodiadau'r llygryn hwnnw yn unol â Rhan I o Atodlen 3 a Rhan I o Atodlen 5.

(6) Nodir dulliau cyfeirio ar gyfer—

(a) dadansoddi sylffwr deuocsid, nitrogen deuocsid ac ocisdau nitrogen;

(b) samplu a dadansoddi plwm;

(**5**) *Gweler* rheoliad 10(8).
(**6**) *Gweler* rheoliad 10(10).
(**7**) *Gweler* rheoliad 10(11).

(c) samplu a mesur $PM_{10}$;

(ch) samplu a dadansoddi bensen; a

(d) dadansoddi carbon monocsid

yn Atodlen 6, a rhaid i'r dulliau hyn gael eu defnyddio oni bai bod dulliau eraill yn cael eu defnyddio y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn credu bod modd dangos eu bod yn rhoi canlyniadau cyfwerth.

(7) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod gorsafoedd mesur i roi data cynrychioliadol ar grynodiadau $PM_{2.5}$ wedi'u gosod ac yn cael eu gweithredu, gan ddefnyddio unrhyw ddull ar gyfer samplu a mesur $PM_{2.5}$ y mae'n credu ei fod yn addas, a bod pwyntiau samplu $PM_{2.5}$ yn cael eu cyd-leoli â phwyntiau samplu $PM_{10}$ lle bynnag y bo modd.

(8) Ar gyfer parthau sydd wedi'u dosbarthu o dan reoliad 6(1)(b) neu (c), rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod yr wybodaeth a nodir yn Rhan II o Atodlen 5 yn cael ei chrynhoi.

(9) Ar gyfer sylffwr deuocsid, nitrogen deuocsid, ocsidau nitrogen, bensen a charbon monocsid rhaid i'r cyfaint gael eu safoni ar dymheredd o 293°K a mesuriadau phwysedd o 101.3 kPa.

**Cynlluniau gweithredu**

**9.**—(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol lunio cynlluniau gweithredu sy'n nodi'r mesurau sydd i'w cymryd yn y tymor byr os ceir unrhyw risg o fynd yn uwch na'r gwerthoedd terfyn ar gyfer unrhyw un o'r llygrynnau perthnasol, neu'r trothwyon rhybuddio ar gyfer sylffwr deuocsid neu nitrogen deuocsid, er mwyn lleihau'r risg hwnnw ac i gyfyngu ar barhad digwyddiad o'r fath.

(2) Y trothwy sydd wedi'i nodi ym mharagraff 1.2 o Ran I o Atodlen 1 yw'r trothwy rhybuddio ar gyfer sylffwr deuocsid, a'r trothwy a nodir ym mharagraff 2.2 o Ran II o Atodlen 1 yw'r trothwy rhybuddio ar gyfer nitrogen deuocsid.

**Y camau sydd i'w cymryd os eir yn uwch na'r gwerthoedd terfyn**

**10.**—(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol lunio rhestr o barthau lle mae lefelau un neu ragor o'r llygrynnau perthnasol yn uwch—

(a) na'r gwerth terfyn, mewn achos lle nad oes goddefiant yn cael ei ddangos yn Atodlen 1 mewn perthynas â gwerth terfyn;

(b) na'r gwerth terfyn plws y goddefiant a ddangosir yn Atodlen 1, mewn unrhyw achos arall.

(2) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol lunio rhestr o barthau lle mae lefelau un neu ragor o'r llygrynnau perthnasol rhwng y gwerth terfyn a'r gwerth terfyn plws unrhyw oddefiant.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraffau (8), (10) a (11), rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol lunio, ar gyfer pob parth a restrir o dan baragraff (1), gynllun neu raglen ar gyfer cyrraedd y gwerthoedd terfyn ar gyfer y llygrynnau o dan sylw a rhaid iddo sicrhau y caiff y cynllun neu'r rhaglen eu gweithredu.

(4) Lle y pennir dyddiad yn Atodlen 1 ar gyfer cyrraedd y gwerth terfyn, mae'r cynllun neu'r rhaglen i fod i gyrraedd y gwerth terfyn hwnnw erbyn y dyddiad hwnnw.

(5) Lle nad oes dyddiad wedi'i bennu yn Atodlen 1 ar gyfer cyrraedd y gwerth terfyn, mae'r cynllun neu'r rhaglen i fod i gyrraedd y gwerth terfyn o'r dyddiad pan ddaw'r Rheoliadau hyn i rym(**8**).

(6) Rhaid i'r cynllun neu'r rhaglen gynnwys o leiaf yr wybodaeth a restrir yn Atodlen 7.

(7) Os yw lefel mwy nag un llygryn yn uwch na'r gwerthoedd terfyn mewn unrhyw barth, rhaid paratoi cynllun integredig sy'n ymdrin â'r holl lygrynnau o dan sylw.

(**8**) Gosododd rheoliad 9(3) o Reoliadau Gwerthoedd Terfyn Ansawdd Aer (Cymru) 2001 ddyletswydd gyfatebol i baratoi cynllun neu raglen ar gyfer cyrraedd y gwerthoedd terfyn perthnasol, o ran y llygrynnau hyn, erbyn dyddiadau cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

(8) Ar gyfer parthau y mae rheoliad 6(7)(a) yn gymwys iddynt, caiff y Cynulliad Cenedlaethol ddarparu na fydd angen cynlluniau neu raglenni o dan y rheoliad hwn ond os eir yn uwch na'r gwerthoedd terfyn oherwydd allyriannau sydd wedi'u creu gan bobl.

(9) Rhaid i gynlluniau neu raglenni ar gyfer $PM_{10}$ a baratoir yn unol â'r rheoliad hwn anelu hefyd at leihau crynodiadau $PM_{2.5}$.

(10) Ar gyfer parthau y mae rheoliad 6(7)(b)(i) yn gymwys iddynt, caiff y Cynulliad Cenedlaethol ddarparu na fydd angen cynlluniau neu raglenni ond os eir yn uwch na'r gwerthoedd terfyn oherwydd achosion heblaw digwyddiadau naturiol.

(11) Ar gyfer parthau y mae rheoliad 6(7)(b)(ii) yn gymwys iddynt, caiff y Cynulliad Cenedlaethol ddarparu na fydd angen cynlluniau neu raglenni ond os eir yn uwch na'r gwerthoedd terfyn oherwydd lefelau $PM_{10}$ heblaw'r rhai sy'n cael eu hachosi gan drin ffyrdd â thywod yn y gaeaf.

**Parthau lle mae'r lefelau yn is na'r gwerth terfyn**

**11.**—(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol lunio rhestr o barthau lle mae lefelau'r llygrynnau perthnasol yn is na'r gwerthoedd terfyn.

(2) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod lefelau'r llygrynnau perthnasol yn y parthau hyn yn cael eu cadw yn is na'r gwerthoedd terfyn a rhaid iddo ymdrechu i gadw'r ansawdd aer amgylchynol orau sy'n gyson â datblygu cynaliadwy.

**Gwybodaeth gyhoeddus**

**12.**—(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf am grynodiadau amgylchynol pob un o'r llygrynnau perthnasol ar gael i'r cyhoedd fel rhan o'r drefn.

(2) Rhaid i'r wybodaeth am grynodiadau amgylchynol sylffwr deuocsid, nitrogen deuocsid a mater gronynnol gael ei diweddaru—

(a) yn achos gwerthoedd fesul-awr ar gyfer sylffwr deuocsid a nitrogen deuocsid, bob awr os yw hynny'n ymarferol;

(b) ym mhob achos arall, bob dydd o leiaf.

(3) Rhaid i'r wybodaeth am grynodiadau amgylchynol plwm cael ei diweddaru bob tri mis.

(4) Rhaid i'r wybodaeth am grynodiadau amgylchynol bensen, fel gwerth cyfartalog dros y 12 mis diwethaf, gael ei diweddaru—

(a) yn fisol os yw hynny'n ymarferol;

(b) ym mhob achos arall, bob tri mis o leiaf.

(5) Rhaid i'r wybodaeth am grynodiadau amgylchynol carbon monocsid, fel gwerth cyfartalog cyfredol dros wyth awr, gael ei diweddaru—

(a) bob awr os yw hynny'n ymarferol;

(b) ym mhob achos arall, bob dydd o leiaf.

(6) Rhaid i'r wybodaeth y trefnir ei bod ar gael o dan baragraff (1) gynnwys—

(a) nodyn i ddweud i ba raddau yr aed yn uwch na'r gwerthoedd terfyn a'r trothwyon rhybuddio ar gyfer llygrynnau penodol dros y cyfnodau cyfartaleddu a bennir yn Atodlen 1; a

(b) asesiad byr o'r enghreifftiau hynny lle'r aed yn uwch na'r gwerthoedd a'r trothwyon a'r effeithiau a gawsant ar iechyd.

(7) Pan eir yn uwch na throthwy rhybuddio, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i roi gwybod i'r cyhoedd, a rhaid i'r wybodaeth y trefnir ei bod ar gael gynnwys o leiaf yr wybodaeth a bennir ym mharagraffau 1.3 o Ran I a 2.3 o Ran II o Atodlen 1.

(8) Rhaid i'r wybodaeth y mae'n rhaid trefnu ei bod ar gael i'r cyhoedd o dan y rheoliad hwn gynnwys y map o'r parthau y cyfeirir ato yn rheoliad 2, a chynlluniau gweithredu, cynlluniau a rhaglenni a baratoir o dan reoliadau 9 a 10 yn ôl eu trefn.

(9) At ddibenion y rheoliad hwn, mae'r cyhoedd yn cynnwys cyrff gofal iechyd a mudiadau sydd â diddordeb yn ansawdd yr aer amgylchynol a mudiadau sy'n cynrychioli buddiannau poblogaethau sensitif, defnyddwyr a'r amgylchedd, ond nid yw'n gyfyngedig i'r rhain.

(10) Rhaid i'r wybodaeth y trefnir ei bod ar gael o dan y rheoliad hwn fod yn glir, cynhwysfawr a hawdd ei chael.

### Diddymu Rheoliadau Gwerthoedd Terfyn Ansowdd (Aer) (Cymru) 2001 a Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer 1989 a darpariaethau trosiannol

**13.**—(1) Mae Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru)2001(**9**) drwy hyn yn cael eu diddymu.

(2) Mae Rheoliadau Gwerthoedd Terfyn Ansawdd Aer 1989(**10**)**,** i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, yn cael eu diddymu yn unol â'r is-baragraffau canlynol—

(a) diddymir rheoliad 2(1) (gwerthoedd terfyn ar gyfer sylffwr a gronynnau mewn daliant) a rheoliad 4(1) (gwerth terfyn ar gyfer plwm mewn aer) gydag effaith o 1 Ionawr 2005 ymlaen;

(b) diddymir rheoliad 6 (gwerth terfyn ar gyfer nitrogen deuocsid yn yr atmosffer) gydag effaith o 1 Ionawr 2010 ymlaen.

(3) Tan 1 Ionawr 2005, os caiff y dulliau a ragnodir gan y Rheoliadau hyn ar gyfer asesu mater gronynnol mewn daliant eu defnyddio er mwyn dangos cydymffurfedd ag Atodiad IV i Gyfarwyddeb 80/779/EEC dyddiedig 15 Gorffennaf 1980 ynghylch gwerthoedd terfyn ansawdd aer a gwerthoedd bras ar gyfer cyfanswm y gronynnau mewn daliant(**11**)**,** rhaid i'r data a gesglir fel hyn gael ei luosi â ffactor o 1.2.

(4) Lle—

(a) yr oedd yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol gymryd unrhyw gam, neu yr oedd wedi'i awdurdodi i gymryd cam, drwy unrhyw ddarpariaeth o Reoliadau Gwerthoedd Terfyn Ansawdd Aer (Cymru) 2001;

(b) yr oedd cam o'r fath wedi'i gymryd gan y Cynulliad Cenedlaethol cyn i'r Rheoliadau hyn ddirymu'r Rheoliadau hynny; ac

(c) y mae'r ddarpariaeth dan sylw yn cael ei hailddeddfu gan y Rheoliadau hyn,

mae'r cam i'w drin, at ddibenion y Rheoliadau hyn, fel pe bai wedi'i gymryd o dan y Rheoliadau hyn.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**12**)

*D. Elis-Thomas*
17 Rhagfyr 2002 Llywydd y Cynulliad.

(**9**) O.S. 2001/2683 (Cy. 224).
(**10**) O.S. 1989/317, a ddiwygiwyd gan O.S. 1995/3146 ac a ddiddymwyd yn rhannol, mewn perthynas â Chymru, gan O.S. 2001/2683 (Cy. 224).
(**11**) OJ L229, 30.8.1980, t.30.
(**12**) 1998 p.38.

ATODLEN 1 — Rheoliadau 4(1), 9(2), 10(1) a (4), 12(6) a (7)

GWERTHOEDD TERFYN, GODDEFIANNAU, ETC.

# RHAN I

## SYLFFWR DEUOCSID (SO2)

### Gwerthoedd terfyn ar gyfer sylffwr deuocsid

**1.1**

| | *Cyfnod Cyfartaleddu* | *Gwerth terfyn* | *Goddefiant(**13**)* | *Erbyn pryd y mae'n rhaid cyrraedd y gwerth terfyn* |
|---|---|---|---|---|
| **1.** Terfyn gwerth fesul-awr ar gyfer diogelu iechyd pobl | 1 awr | 350 µg/m$^3$, y mae'n rhaid peidio â mynd yn uwch nag ef fwy na 24 gwaith y flwyddyn galendr | 60 µg/m$^3$ ar 1 Ionawr 2003, gan ostwng ar 1 Ionawr bob blwyddyn wedyn yn ôl canrannau blynyddol cyfartal nes cyrraedd 0 µg/m$^3$ erbyn 1 Ionawr 2005 | 1 Ionawr 2005 |
| **2.** Gwerth terfyn dyddiol ar gyfer diogelu iechyd pobl | 24 awr | 125 µg/m$^3$, y mae'n rhaid peidio â mynd yn uwch nag ef fwy na 3 gwaith y flwyddyn galendr | Dim un | 1 Ionawr 2005 |
| **3.** Gwerth terfyn ar gyfer diogelu ecosystemau | Y flwyddyn galendr a'r gaeaf (1 Hydref i 31 Mawrth) | 20 µg/m$^3$ | Dim un | |

### Trothwy rhybuddio ar gyfer sylffwr deuocsid

**1.2** 500 µg/m$^3$ wedi'i fesur dros dair awr o'r bron mewn mannau sy'n gynrychioliadol o ansawdd yr aer dros o leiaf 100 km$^2$ neu barth neu grynhoad cyfan, p'un bynnag yw'r lleiaf.

(**13**) Mae'r ffigurau ar gyfer Goddefiannau ar gyfer pob un o'r llygrynnau perthnasol a roddir yn yr Atodlen hon wedi'u cyfrifo o'r rhai a roddir yn Atodiad I i Gyfarwyddeb 99/30/EC ac Atodiadau I a II o Gyfarwyddeb 2000/69/EC.

**Isafswm y manylion y mae'n rhaid trefnu eu bod ar gael i'r cyhoedd pan eir yn uwch na'r trothwy rhybuddio ar gyfer sylffwr deuocsid**

**1.3** Dylai'r manylion y mae'n rhaid trefnu eu bod ar gael i'r cyhoedd gynnwys o leiaf :

- dyddiad, awr a lle y digwyddiad a'r rhesymau drosto, os ydynt yn hysbys;
- unrhyw ragolygon ar gyfer:
  - newidiadau mewn crynodiad (gwella, sefydlogi, neu ddirywio), ynghyd â'r rhesymau dros y newidiadau hynny,
  - yr ardal ddaearyddol o dan sylw,
  - parhad y digwyddiad;
  - y math o boblogaeth a allai fod yn sensitif i'r digwyddiad;
  - rhagofalon sydd i'w cymryd gan y boblogaeth sensitif o dan sylw.

# RHAN II

## NITROGEN DEUOCSID ($NO_2$) AC OCSIDAU NITROGEN ($NO_x$)

**Gwerthoedd terfyn ar gyfer nitrogen deuocsid ac ocsidau nitrogen**

**2.1**

| | *Cyfnod Cyfartaleddu* | *Gwerth terfyn* | *Goddefiant* | *Erbyn pryd y mae'n rhaid cyrraedd y gwerth terfyn* |
|---|---|---|---|---|
| **1.** Gwerth terfyn fesul-awr ar gyfer diogelu iechyd pobl | 1 awr | 200µg/m$^3$ o $NO_2$ y mae'n rhaid peidio â mynd yn uwch nag ef fwy na 18 gwaith mewn blwyddyn galendr | 70 µg/m$^3$ ar 1 Ionawr 2003, gan ostwng ar 1 Ionawr bob blwyddyn wedyn yn ôl canran flynyddol gyfartal nes cyrraedd 0 µg/m$^3$ erbyn 1 Ionawr 2010 | 1 Ionawr 2010 |
| **2.** Gwerth terfyn blynyddol ar gyfer diogelu iechyd pobl | Y flwyddyn galendr | 40µg/m$^3$ o $NO_2$ | 14 µg/m$^3$ ar 1 Ionawr 2003, gan ostwng ar 1 Ionawr bob blwyddyn wedyn yn ôl canran flynyddol gyfartal nes cyrraedd 0 µg/m$^3$ erbyn 1 Ionawr 2010 | 1 Ionawr 2010 |
| **3.** Gwerth terfyn blynyddol | Y flwyddyn galendr | 30 µg/m$^3$ o $NO_x$ | Dim un | |

| | *Cyfnod Cyfartaleddu* | *Gwerth terfyn* | *Goddefiant* | *Erbyn pryd y mae'n rhaid cyrraedd y gwerth terfyn* |
|---|---|---|---|---|
| ar gyfer diogelu llystyfiant | | | | |

**Trothwy rhybuddio ar gyfer nitrogen deuocsid**

**2.2** 400 µg/m3 wedi'i fesur dros dair awr o'r bron mewn lleoliadau sy'n gynrychioliadol o ansawdd yr aer dros o leiaf 100 $km^2$ neu barth neu grynhoad cyfan, p'un bynnag yw'r lleiaf.

**Isafswm y manylion y mae'n rhaid trefnu eu bod ar gael i'r cyhoedd pan eir yn uwch na'r trothwy rhybuddio ar gyfer nitrogen deuocsid**

**2.3** Dylai'r manylion y mae'n rhaid trefnu eu bod ar gael i'r cyhoedd gynnwys o leiaf:

— dyddiad, awr a lle y digwyddiad a'r rhesymau drosto, os ydynt yn hysbys;

— — unrhyw ragolygon ar gyfer:

  — newidiadau mewn crynodiad (gwella, sefydlogi, neu ddirywio), ynghyd â'r rhesymau dros y newidiadau hynny,

  — yr ardal ddaearyddol o dan sylw,

  — parhad y digwyddiad;

  — y math o boblogaeth a allai fod yn sensitif i'r digwyddiad;

  — y rhagofalon sydd i'w cymryd gan y boblogaeth sensitif o dan sylw.

# RHAN III

## MATER GRONYNNOL ($PM_{10}$)

| | *Cyfnod Cyfartaleddu* | *Gwerth terfyn* | *Goddefiant* | *Erbyn pryd y mae'n rhaid cyrraedd y gwerth terfyn* |
|---|---|---|---|---|
| **1.** Gwerth terfyn 24-awr ar gyfer diogelu iechyd pobl | 24 awr | Rhaid peidio â mynd yn uwch na 50µg/$m^3$ o $PM_{10}$ fwy na 35 gwaith y flwyddyn galendr | 10 µg/$m^3$ ar 1 Ionawr 2003, gan ostwng ar 1 Ionawr bob blwyddyn wedyn yn ôl canrannau blynyddol cyfartal nes cyrraedd 0 µg/$m^3$ erbyn 1 Ionawr 2005. | 1 Ionawr 2005 |
| **2.** Gwerth terfyn blynyddol ar gyfer diogelu iechyd pobl | Blwyddyn galendr | 40 µg/$m^3$ o $PM_{10}$ | 3.2 µg/$m^3$ ar 1 Ionawr 2003, gan ostwng ar | 1 Ionawr 2005 |

| | *Cyfnod Cyfartaleddu* | *Gwerth terfyn* | *Goddefiant* | *Erbyn pryd y mae'n rhaid cyrraedd y gwerth terfyn* |
|---|---|---|---|---|
| | | | 1 Ionawr bob blwyddyn wedyn yn ôl canrannau blynyddol cyfartal nes cyrraedd 0 µg/$m^3$ erbyn 1 Ionawr 2005. | |

# RHAN IV

## PLWM (Pb)

| | *Cyfnod Cyfartaleddu* | *Gwerth terfyn* | *Goddefiant* | *Erbyn pryd y mae'n rhaid cyrraedd y gwerth terfyn* |
|---|---|---|---|---|
| *Gwerth terfyn* blynyddol ar gyfer diogelu iechyd pobl | Blwyddyn galendr | 0.5 µg/$m^3$ | 0.2 µg/$m^3$ ar 1 Ionawr 2003, gan ostwng ar 1 Ionawr bob blwyddyn wedyn yn ôl canrannau blynyddol cyfartal nes cyrraedd 0 µg/$m^3$ erbyn 1 Ionawr 2005. | 1 Ionawr 2005 |

# RHAN V

## BENSEN ($C_6H_6$)

| | *Cyfnod Cyfartaleddu* | *Gwerth terfyn* | *Goddefiant* | *Erbyn pryd y mae'n rhaid cyrraedd y gwerth terfyn* |
|---|---|---|---|---|
| Gwerth terfyn blynyddol ar gyfer diogelu iechyd pobl | Blwyddyn galendr | 5 µg/$m^3$ | 5 µg/$m^3$ ar 1 Ionawr 2003, gan ostwng ar 1 Ionawr 2006 a phob 12 mis wedyn gan 1 µg/$m^3$ nes cyrraedd | 1 Ionawr 2010 |

| | *Cyfnod Cyfartaleddu* | *Gwerth terfyn* | *Goddefiant* | *Erbyn pryd y mae'n rhaid cyrraedd y gwerth terfyn* |
|---|---|---|---|---|
| | | | 0 µg/$m^3$ erbyn 1 Ionawr 2010. | |

# RHAN V

## CARBON MONOCSID (CO)

| | *Cyfnod Cyfartaleddu* | *Gwerth terfyn* | *Goddefiant* | *Erbyn pryd y mae'n rhaid cyrraedd y gwerth terfyn* |
|---|---|---|---|---|
| Gwerth terfyn blynyddol ar gyfer diogelu iechyd pobl | Mwyafswm cymedr o 8-awr yn ddyddiol | 10 mg/$m^3$ | 4 mg/$m^3$ ar 1 Ionawr 2003, gan ostwng pob 12 mis wedyn gan 2 mg/$m^3$ nes cyrraedd 0 mg/$m^3$ erbyn 1 Ionawr 2005. | 1 Ionawr 2005 |
| Detholir crynodiad mwyafswm cymedr o 8-awr yn ddyddiol drwy archwilio cyfartaleddau cyfredol 8-awr, wedi'u cyfrifo o ddata fesul awr a'u diweddaru bob awr. Priodolir pob 8-awr gyfartalog a gyfrifir felly i'r diwrnod pan ddaw i ben, h.y. y cyfnod cyfrifo cyntaf ar gyfer unrhyw ddiwrnod fydd y cyfnod o 17:00 ar y diwrnod blaenorol hyd at 01:00 ar y diwrnod hwnnw; y cyfnod cyfrifo olaf ar gyfer unrhyw ddiwrnod fydd y cyfnod o 16:00 hyd at 24:00 ar y diwrnod hwnnw. | | | | |

### ATODLEN 2

Rheoliadau 6(5) a 7(1)

### TROTHWYON ASESU UCHAF AC ISAF A GORMODEDDAU

# RHAN I

## Trothwyon asesu uchaf ac isaf

Bydd y trothwyon asesu uchaf ac isaf canlynol yn gymwys:

*SYLFFWR DEUOCSID ($SO_2$)*

(a)

| | *Diogelu iechyd* | *Diogelu ecosystemau* |
|---|---|---|
| Trothwy asesu uchaf | 60 % o'r gwerth terfyn 24-awr (75 µg/$m^3$ , y mae'n rhaid peidio â mynd yn uwch nag ef fwy na 3 gwaith mewn unrhyw flwyddyn galendr) | 60 % o werth terfyn y gaeaf (12 µg/$m^3$ ) |

| | *Diogelu iechyd* | *Diogelu ecosystemau* |
|---|---|---|
| Trothwy asesu isaf | 40 % o'r gwerth terfyn 24-awr (50 μg/$m^3$ , y mae'n rhaid peidio â mynd yn uwch nag ef fwy na 3 gwaith mewn unrhyw flwyddyn galendr) | 40 % o werth terfyn y gaeaf (8 μg/$m^3$ ) |

*NITROGEN DEUOCSID ($NO_2$) AC OCSIDAU NITROGEN ($NO_x$)*

(b)

| | *Gwerth terfyn fesul-awr ar gyfer diogelu iechyd pobl ($NO_2$)* | *Gwerth terfyn blynyddol ar gyfer diogelu iechyd pobl($NO_2$)* | *Gwerth terfyn blynyddol ar gyfer diogelu llystyfiant($NO_x$)* |
|---|---|---|---|
| Trothwy asesu uchaf | 70 % o'r gwerth terfyn (140 μg/$m^3$ , y mae'n rhaid peidio â mynd yn uwch nag ef fwy na 18 gwaith mewn unrhyw flwyddyn galendr) | 80 % o'r gwerth terfyn (32 μg/$m^3$ ) | 80 % o'r gwerth terfyn (24 μg/$m^3$ ) |
| Trothwy asesu isaf | 50 % o'r gwerth terfyn (100 μg/$m^3$ , y mae'n rhaid peidio â mynd yn uwch nag ef fwy na 18 gwaith mewn unrhyw flwyddyn galendr) | 65 % o'r gwerth terfyn (26 μg/$m^3$ ) | 65 % o'r gwerth terfyn (19.5 μg/$m^3$ ) |

*MATER GRONYNNOL ($PM_{10}$)*

(c) (**14**)

| | *Cyfartaledd 24-awr* | *Cyfartaledd blynyddol* |
|---|---|---|
| Trothwy asesu uchaf | 60 % o'r gwerth terfyn (30 μg/$m^3$, y mae'n rhaid peidio mynd yn uwch nag ef fwy na saith gwaith mewn unrhyw flwyddyn galendr) | 70 % o'r gwerth terfyn(14 μg/$m^3$ ) |
| Trothwy asesu isaf | 40 % o'r gwerth terfyn (20 μg/$m^3$ , y mae'n rhaid peidio mynd yn uwch nag ef fwy na saith gwaith | 50 % o'r gwerth terfyn (10 μg/$m^3$ ) |

(**14**) Mae'r trothwyon asesu uchaf ac isaf ar gyfer $PM_{10}$ wedi'u seilio ar y gwerthoedd terfyn dangosol ar gyfer 1 Ionawr 2010, a gaiff eu hadolygu yng ngoleuni gwybodaeth bellach am yr effeithiau ar iechyd a'r amgylchedd, ymarferoldeb technegol a phrofiad wrth gymhwyso gwerthoedd terfyn presennol "Cyfnod 1". *Gweler* Erthygl 10 o Gyfarwyddeb 99/30/EC.

| | *Cyfartaledd 24-awr* | *Cyfartaledd blynyddol* |
|---|---|---|
| | mewn unrhyw flwyddyn galendr) | |

*PLWM (Pb)*

(d)

| | *Cyfartaledd blynyddol* |
|---|---|
| Trothwy asesu uchaf | 70 % o'r gwerth terfyn (0.35 μg/$m^3$ ) |
| Trothwy asesu isaf | 50 % o'r gwerth terfyn (0.25 μg/$m^3$ ) |

*BENSEN ($C_6H_6$)*

(e)

| | *Cyfartaledd blynyddol* |
|---|---|
| Trothwy asesu uchaf | 70 % o'r gwerth terfyn (3.5 μg/$m^3$ ) |
| Trothwy asesu isaf | 40 % o'r gwerth terfyn (2 μg/$m^3$ ) |

*CARBON MONOCSID (CO)*

(f)

| | *Cyfartaledd wyth-awr* |
|---|---|
| Trothwy asesu uchaf | 70 % o'r gwerth terfyn (7 mg/$m^3$ ) |
| Trothwy asesu isaf | 50 % o'r gwerth terfyn (5 mg/$m^3$ ) |

# RHAN II

## Canfod gormodeddau sy'n uwch na'r trothwyon asesu uchaf ac isaf

Rhaid crynhoi gormodeddau sy'n uwch na'r trothwyon asesu uchaf ac isaf ar sail crynodiadau yn ystod y pum mlynedd blaenorol os oes data digonol ar gael. Bernir yr aed yn uwch na'r trothwy asesu os bu gormodedd yn ystod o leiaf tair blwyddyn wahanol allan o'r pum mlynedd flaenorol.

Os oes llai na phum mlynedd o ddata ar gael, gall ymgyrchoedd mesur byr eu parhad yn ystod y cyfnod hwnnw yn y flwyddyn ac yn y mannau sy'n debyg o fod yn nodweddiadol o'r lefelau llygredd uchaf gael eu cyfuno â chanlyniadau a geir o'r wybodaeth o restrau allyriannau a gwaith modelu er mwyn canfod gormodeddau sy'n uwch na'r trothwyon asesu uchaf ac isaf.

ATODLEN 3 Rheoliad 8(3) ac 8(5)

LLEOLI PWYNTIAU SAMPLU AR GYFER MESUR LLYGRYNNAU PERTHNASOL YN YR AER AMGYLCHYNOL

Caiff yr ystyriaethau canlynol eu cymhwyso at fesuriadau sefydlog.

# RHAN I

## Lleoli ar y raddfa macro

*Diogelu iechyd pobl*

(a) Dylai pwyntiau samplu a gyferir at ddiogelu iechyd pobl gael eu lleoli:

(i) i ddarparu data am yr ardaloedd mewn parthau a chrynoadau lle ceir y crynodiadau uchaf y mae'r boblogaeth yn debyg o gael ei datguddio iddynt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol am gyfnod sy'n arwyddocaol mewn perthynas â chyfnod cyfartaleddu y gwerth(oedd) terfyn;

(ii) i ddarparu data am lefelau mewn ardaloedd eraill yn y parthau a'r crynoadau sy'n gynrychioliadol o ddatguddiad y boblogaeth gyffredinol.

Yn gyffredinol dylai pwyntiau samplu gael eu lleoli i osgoi mesur micro-amgylcheddau bach iawn yn y cyffiniau. Fel canllaw, dylai pwynt samplu gael ei leoli i fod yn gynrychioliadol o ansawdd yr aer mewn ardal amgylchynol heb fod yn llai na 200 $m^2$ ar safleoedd sy'n ymwneud â thraffig ac o sawl cilometr sgwâr ar safleoedd â chefndir trefol.

Hefyd, os oes modd, dylai'r pwyntiau samplu fod yn gynrychioliadol o fannau tebyg nad ydynt yn eu cyffiniau.

Dylid cymryd i ystyriaeth yr angen i leoli pwyntiau samplu ar ynysoedd, os oes angen gwneud hynny i ddiogelu iechyd pobl.

*Diogelu ecosystemau a llystyfiant*

(b) Dylai pwyntiau samplu sydd wedi'u targedu ar ddiogelu ecosystemau neu lystyfiant gael eu lleoli fwy nag 20 km o grynoadau neu fwy na 5 km o fannau adeiledig eraill, sefydliadau diwydiannol neu draffyrdd. Fel canllaw, dylai pwynt samplu gael ei leoli i fod yn gynrychioliadol o ansawdd yr aer mewn ardal amgylchynol o 1000 $km^2$ o leiaf. Gall pwynt samplu gael ei leoli yn llai pell i ffwrdd neu i fod yn gynrychioliadol o ansawdd aer mewn ardal lai estynedig, gan gymryd yr amodau daearyddol i ystyriaeth.

Dylid cymryd i ystyriaeth yr angen i asesu ansawdd yr aer ar ynysoedd.

# RHAN II

## Lleoli ar raddfa micro

Dylid bodloni'r canllawiau canlynol cyn belled ag y bo'n ymarferol:

— dylai'r llif o amgylch profiedydd samplu y fewnfa fod yn ddigyfyngiad heb unrhyw rwystrau sy'n effeithio ar lif yr aer yng nghyffiniau'r samplwr (rai metrau i ffwrdd fel rheol o adeiladau, balconïau, coed, a rhwystrau eraill ac o leiaf 0.5m o'r adeilad agosaf yn achos pwyntiau samplu sy'n cynrychioli ansawdd yr aer ar linell yr adeiladau);

— yn gyffredinol, dylai pwynt samplu'r fewnfa fod rhwng 1.5 m (y parth anadlu) a 4 m uwchlaw'r ddaear. Gall fod angen safleoedd uwch (hyd at 8 m) o dan rai amgylchiadau. Gall safle uwch fod yn briodol hefyd os yw'r orsaf yn cynrychioli ardal fawr;

— ni ddylai profiedydd y fewnfa gael ei leoli yng nghyffiniau ffynonellau er mwyn osgoi mewnlifiad uniongyrchol o allyriannau sydd heb eu cymysgu â'r aer amgylchynol;

— dylai allfa wacáu y samplwr gael ei lleoli er mwyn osgoi ailgylchu'r aer o'r allfa i fewnfa'r samplwr;

— lleoli samplwr sy'n anelu at draffig:

— ar gyfer pob llygryn, dylai'r pwyntiau samplu hyn fod o leiaf 25 m o ymyl cyffyrdd pwysig ac o leiaf 4 m o ganol y lôn draffig agosaf,

— ar gyfer nitrogen deuocsid a carbon monocsid ni ddylai'r mewnfeydd fod yn fwy na 5 m o ymyl y cwrbyn,

— ar gyfer mater gronynnol beulsen a phlwm, dylid lleoli'r mewnfeydd i fod yn gynrychioliadol o ansawdd yr aer yn ymyl llinell yr adeiladau.

Gall y ffactorau canlynol gael eu cymryd i ystyriaeth hefyd:

— ffynonellau sy'n ymyrryd;

— diogelwch;

— hygyrchedd;

— a oes pŵer trydan a chysylltiadau ffôn ar gael;

— gweledEdd y safle mewn perthynas â'i amgylchoedd;

— diogelwch y cyhoedd a'r gweithredwyr;

— a yw'n ddymunol cyd-leoli pwyntiau samplu gwahanol lygrynnau;

— gofynion cynllunio.

# RHAN III

## Dogfennu ac adolygu'r gwaith o ddewis safleoedd

Dylai'r gweithdrefnau ar gyfer dewis safleoedd gael eu dogfennu'n llawn adeg y dosbarthu drwy gyfrwng megis ffotograffau pwynt-cwmpawd o'r ardal amgylchynol a map manwl. Dylid adolygu'r safleoedd yn rheolaidd, gan ailadrodd y gwaith dogfennu, i sicrhau bod y meini prawf dewis yn aros yn ddilys dros amser.

ATODLEN 4 Rheoliad 8(4)

MEINI PRAWF AR GYFER CANFOD ISAFSYMIAU'R PWYNTIAU SAMPLU AR GYFER MESURIADAU SEFYDLOG CRYNODIADAU'R LLYGRYNNAU PERTHNASOL YN YR AER AMGYLCHYNOL

# RHAN I

## Isafswm y pwyntiau samplu ar gyfer mesuriadau sefydlog i asesu a ydys yn cydymffurfio â gwerthoedd terfyn ar gyfer diogelu iechyd pobl a throthwyon rhybuddio mewn parthau a chrynoadau os mesuriadau sefydlog yw'r unig ffynhonnell wybodaeth

*Ffynonellau gwasgarog*

(a)

| *Poblogaeth y crynhoad neu'r parth (miloedd)* | *Os yw'r crynodiadau yn uwch na'r trothwy asesu uchaf* | *Os yw'r crynodiadau uchaf rhwng y trothwy asesu uchaf a'r trothwy asesu isaf* | *Ar gyfer $SO_2$ ac $NO_2$ mewn crynoadau lle mae'r crynodiadau uchaf islaw'r trothwyon asesu isaf* |
|---|---|---|---|
| 0—250 | 1 | 1 | ddim yn gymwys |
| 250—499 | 2 | 1 | 1 |

| *Poblogaeth y crynhoad neu'r parth (miloedd)* | *Os yw'r crynodiadau yn uwch na'r trothwy asesu uchaf* | *Os yw'r crynodiadau uchaf rhwng y trothwy asesu uchaf a'r trothwy asesu isaf* | *Ar gyfer $SO_2$ ac $NO_2$ mewn crynoadau lle mae'r crynodiadau uchaf islaw'r trothwyon asesu isaf* |
|---|---|---|---|
| 500—749 | 2 | 1 | 1 |
| 750—999 | 3 | 1 | 1 |
| 1 000—1 499 | 4 | 2 | 1 |
| 1 500—1 999 | 5 | 2 | 1 |
| 2 000—2 749 | 6 | 3 | 2 |
| 2 750—3 749 | 7 | 3 | 2 |
| 3 750—4 749 | 8 | 4 | 2 |
| 4 750— 5 999 | 9 | 4 | 2 |
| > 6 000 | 10 | 5 | 3 |
| | Ar gyfer $NO_2$ a mater gronynnol: i gynnwys o leiaf un orsaf â chefndir trefol ac un orsaf sy'n cyfeirio at draffig — bydd y gofyniad hwn yn gymwys i bensen a charbon monocsid ar yr amod nad yw'n cynyddu nifer y pwyntiau samplu. | | |

*Ffynonellau pwynt*

(b) I asesu llygredd yng nghyffiniau ffynonellau pwynt, dylid cyfrifo nifer y pwyntiau samplu ar gyfer mesuriadau sefydlog gan gymryd i ystyriaeth ddwyseddau allyriannau, patrymau dosbarthiad tebygol y llygredd yn yr aer amgylchynol a datguddiad posibl y boblogaeth.

# RHAN II

## Isafswm y pwyntiau samplu ar gyfer mesuriadau sefydlog i asesu a ydys yn cydymffurfio â gwerthoedd terfyn ar gyfer diogelu ecosystemau neu lystyfiant mewn parthau heblaw crynoadau

| *Os yw'r crynodiadau uchaf yn uwch na'r trothwy asesu uchaf* | *Os yw'r crynodiadau uchaf rhwng y trothwy asesu uchaf a'r trothwy asesu isaf* |
|---|---|
| 1 orsaf i bob 20,000 $km^2$ | 1 orsaf i bob 40,000 $km^2$ |
| Mewn parthau ar ynysoedd, dylid cyfrifo nifer y pwyntiau samplu ar gyfer mesuriadau sefydlog gan gymryd i ystyriaeth batrymau dosbarthiad tebygol y llygredd yn yr aer amgylchynol a datguddiad posibl yr ecosystemau neu'r llystyfiant. | |

ATODLEN 5 — Rheoliad 8(5) a (8)

AMCANION ANSAWDD DATA A LLUNIO CANLYNIADAU ASESIADAU ANSAWDD AER

# RHAN 1

## Amcanion ansawdd-data

Mae'r amcanion ansawdd-data canlynol ar gyfer y cywirdeb y mae ei angen ar gyfer dulliau asesu, yr isafsymiau amser a'r gwaith cofnodi data yn sgil mesur yn cael eu nodi er mwyn arwain rhaglenni sicrwydd ansawdd.

| | *Sylffwr deuocsid ($SO_2$), nitrogen deuocsid ($NO_2$) ac ocsidau nitrogen ($NO_x$)* | *Mater gronynnol ($PM_{10}$) a phlwm (Pb)* |
|---|---|---|
| **Mesur di-dor** | | |
| Cywirdeb | 15 % | 25 % |
| Isafswm ar gyfer cofnodi data | 90 % | 90 % |
| **Mesur dangosol** | | |
| Cywirdeb | 25 % | 50 % |
| Isafswm ar gyfer cofnodi data | 90 % | 90 % |
| Isafswm amser | 14 % (Un mesuriad yr wythnos ar hap, wedi'u dosbarthu'n gyfartal drwy'r flwyddyn, neu wyth wythnos wedi'u dosbarthu'n gyfartal drwy'r flwyddyn.) | 14 % (Un mesuriad yr wythnos ar hap, wedi'u dosbarthu'n gyfartal drwy'r flwyddyn, neu wyth wythnos wedi'u dosbarthu'n gyfartal drwy'r flwyddyn.) |
| **Modelu** | | |
| Cywirdeb: | | |
| Cyfartaleddau fesul-awr | 50 %—60 % | |
| Cyfartaleddau dyddiol | 50 % | |
| Cyfartaleddau blynyddol | 30 % | 50 % |

| | *Sylffwr deuocsid ($SO_2$), nitrogen deuocsid ($NO_2$) ac ocsidau nitrogen ($NO_x$)* | *Mater gronynnol ($PM_{10}$) a phlwm (Pb)* |
|---|---|---|
| **Amcangyfrif gwrthrychol** | | |
| Cywirdeb: | 75 % | 100 % |

Diffinnir cywirdeb y gwaith mesur fel y mae wedi'i nodi yn y “Guide to the Expression of Uncertainty of Measurements” (ISO 1993)(**15**) neu ISO 5725-1 “Accuracy (trueness and precision) of measurement methods and results” (ISO 1994)(**16**). Mae'r canrannau yn y tabl yn cael eu rhoi ar gyfer mesuriadau unigol wedi'u cyfartaleddu, dros y cyfnod a ystyrir, gan y gwerth terfyn, i gael cyfwng hyder o 95% (bias + dwy waith y gwyriad safonol). Dylai'r cywirdeb ar gyfer mesuriadau di-dor gael ei ddehongli fel pe bai'n gymwysadwy yng nghyffiniau'r gwerth terfyn priodol.

Mae'r cywirdeb ar gyfer modelu ac amcangyfrif gwrthrychol wedi'i ddiffinio fel yr uchafswm amrywiadau ar y lefelau crynodiadau a gyfrifir ac a fesurir, dros y cyfnod a ystyrir gan y gwerth terfyn, heb gymryd amseriad y digwyddiadau i ystyriaeth.

Nid yw'r gofynion ar gyfer isafsymiau cofnodi data ac isafsymiau amser yn cynnwys colli data wrth i'r offer gael eu calibradu neu eu cynnal-a-chadw fel rhan o'r drefn.

Gall y Cynulliad Cenedlaethol ganiatáu gwneud mesuriadau ar hap yn lle mesuriadau di-dor ar gyfer mater gronynnol a phlwm drwy ddulliau y dangoswyd bod eu cywirdeb o fewn y cyfwng hyder 95% mewn perthynas â monitro di-dor wedi bod o fewn 10%. Rhaid i samplu ar hap gael ei gynnal yn gyson dros y flwyddyn.

Mae'r amcanion ansawdd-data canlynol ar gyfer yr ansicrwydd a ganiateir ar gyfer dulliau asesu, yr isafsymiau amser a'r gwaith cofnodi data yn sgil mesur yn cael eu nodi er mwyn arwain rhaglenni sicrwydd ansawdd.

| | *Bensen ($C_6H_6$)* | *Carbon monocsid (CO)* |
|---|---|---|
| **Mesuriadau sefydlog** | | |
| Ansicrwydd | 25 % | 15 % |
| Isafswm ar gyfer cofnodi data | 90 % | 90 % |
| Isafswm amser | 35% cefndir trefol a safleoedd traffig (a ddosbarthwyd dros y flwyddyn i gynrychioli amgylchia dau amrywiol mewn tywydd a thraffig) 90% safleodd diwydiannol | |
| **Mesuriadau dangosol** | | |
| Ansicrwydd | 30 % | 25 % |
| Isafswm ar gyfer cofnodi data | 90 % | 90 % |
| Isafswm amser | 14 % (Un mesuriad yr wythnos ar hap, wedi'u dosbarthu'n gyfartal drwy'r flwyddyn, neu wyth wythnos wedi'u dosbarthu'n gyfartal drwy'r flwyddyn.) | 14 % (Un mesuriad yr wythnos ar hap, wedi'u dosbarthu'n gyfartal drwy'r flwyddyn, neu wyth wythnos wedi'u dosbarthu'n gyfartal drwy'r flwyddyn.) |
| **Modelu** | | |

(**15**) Gellir prynu copïau o'r cyhoeddiad hwn gan y Corff Safonau Rhyngwladol oddi wrth Adran Werthiannau Sefydliad Safonau Prydain “BSI” naill ai dros y ffôn ar 020 8996 9001 neu drwy'r post oddi wrth y BSI, Standards House, 389 Chiswick High Road, Llundain W4 4AL.

(**16**) Gellir prynu copïau o'r cyhoeddiad hwn gan y Corff Safonau Rhyngwladol oddi wrth Adran Werthiannau Sefydliad Safonau Prydain “BSI” fel yn nhroednodyn (a) uchod.

| | *Bensen ($C_6H_6$)* | *Carbon monocsid (CO)* |
|---|---|---|
| Ansicrwydd: | | |
| Cyfartaleddau wyth-awr | — | 50% |
| Cyfartaleddau blynyddol | 50 % | — |
| **Amcangyfrif gwrthrychol** | | |
| Ansicrwydd: | 100 % | 75 % |

Caiff ansicrwydd (mewn cyfwng hyder o 95%) y dulliau asesu eu gwerthuso yn unol â'r "Guide to the Expression of Uncertainty of Measurements" (ISO 1993)(**17**) neu fethodoleg ISO 5725:1994(**18**). Mae'r canrannau ar gyfer ansicrwydd yn y tabl uchod yn cael eu rhoi ar gyfer mesuriadau unigol wedi'u cyfartaleddu dros y cyfnod a ystyrir gan y gwerth terfyn, i gael cyfwng hyder o 95%. Dylai'r ansicrwydd ar gyfer y mesuriadau sefydlog gael ei ddehongli fel pe bai'n gymwysadwy yng nghyffiniau'r gwerth terfyn priodol.

Mae'r ansicrwydd ar gyfer modelu ac amcangyfrif gwrthrychol wedi'i ddiffinio fel yr uchafswm amrywiadau ar y lefelau crynodiadau a gyfrifir ac a fesurir, dros y cyfnod a ystyrir, gan y gwerth terfyn, heb gymryd amseriad y digwyddiadau i ystyriaeth.

Nid yw'r gofynion ar gyfer isafsymiau cofnodi data ac isafsymiau amser yn cynnwys colli data wrth i'r offer gael eu calibradu neu eu cynnal-a-chadw fel rhan o'r drefn.

Gall y Cynulliad Cenedlaethol ganiatáu gwneud mesuriadau ar hap yn lle mesuriadau di-dor ar gyfer bensen os yw'r ansicrwydd, gan gynnwys yr ansicrwydd oherwydd samplu ar hap, yn cyrraedd yr amcan ansawdd o 25%. Rhaid i samplu ar hap gael ei gynnal yn gyson dros y flwyddyn.

# RHAN II

## Canlyniadau asesiadau ansawdd aer

Dylai'r wybodaeth ganlynol gael ei llunio ar gyfer parthau neu grynoadau y defnyddir ffynonellau heblaw mesuriadau ynddynt i gydategu'r wybodaeth o fesuriadau neu fel yr unig ddull o asesu ansawdd yr aer:

- disgrifiad o'r gweithgareddau asesu a wnaed;
- y dulliau penodol a ddefnyddiwyd, gan gyfeirio at ddisgrifiadau o'r dull;
- y ffynonellau data a gwybodaeth;
- disgrifiad o'r canlyniadau, gan gynnwys y cywirdebau ac, yn benodol, hyd a lled unrhyw ardal neu, os yw'n berthnasol, hyd y ffordd yn y parth neu'r crynhoad lle mae'r crynodiadau'n uwch na'r gwerth(oedd) terfyn neu, yn ôl fel y digwydd, y gwerth(oedd) terfyn plws goddefiant/goddefiannau cymwysadwy a hyd a lled unrhyw ardal lle mae'r crynodiadau'n uwch na'r trothwy asesu uchaf neu'r trothwy asesu isaf;
- ar gyfer gwerthoedd terfyn sy'n anelu at ddiogelu iechyd pobl, y boblogaeth a allai gael ei datguddio i grynodiadau sydd yn uwch na'r gwerth terfyn.

Os oes modd rhaid llunio mapiau sy'n dangos dosbarthiadau'r crynodiadau ym mhob parth a chrynhoad.

(**17**) Gellir prynu copïau o'r cyhoeddiad hwn gan y Corff Safonau Rhyngwladol oddi wrth Adran Werthiannau Sefydliad Safonau Prydain "BSI" naill ai dros y ffôn ar 020 8996 9001 neu drwy'r post oddi wrth y BSI, Standards House, 389 Chiswick High Road, Llundain W4 4AL.

(**18**) Gellir prynu copïau o'r cyhoeddiad hwn gan y Corff Safonau Rhyngwladol oddi wrth Adran Werthiannau Sefydliad Safonau Prydain "BSI" fel yn nhroednodyn (a) uchod

ATODLEN 6 — Rheoliad 8(6)

DULLIAU CYFEIRIO AR GYFER ASESU CRYNODIADAU O LYGRYNNAU PERTHNASOL

# RHAN I

## Dull cyfeirio ar gyfer dadansoddi sylffwr deuocsid ($SO_2$)

ISO/FDIS 10498 (Safon ar ffurf drafft) Ambient air — determination of sulphur dioxide — ultraviolet fluorescence method(**19**).

# RHAN II

## Dull cyfeirio ar gyfer dadansoddi nitrogen deuocsid ($NO_2$) ac ocsidau nitrogen ($NO_x$)

ISO 7996: 1985 Ambient air — determination of the mass concentrations of nitrogen oxides — chemiluminescence method.(**20**)

# RHAN IIIA

## Dull cyfeirio ar gyfer samplu plwm (Pb)

Y dull cyfeirio ar gyfer samplu plwm fydd y dull a ddisgrifir yn yr Atodiad i Gyfarwyddeb 82/884/EEC(**21**) nes yr amser pryd y mae'n rhaid cyrraedd y gwerth terfyn yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn, pryd y bydd y dull cyfeirio yr un fath ag ar gyfer $PM_{10}$ sydd wedi'i nodi yn Rhan IV o'r Atodlen hon.

# RHAN IIIB

## Dull cyfeirio ar gyfer dadansoddi plwm (Pb)

ISO 9855: 1993 Ambient air — Determination of the particulate lead content of aerosols collected in filters. Atomic absorption spectroscopy method(**22**).

# RHAN IV

## Dull cyfeirio ar gyfer samplu a mesur $PM_{10}$

Y dull cyfeirio ar gyfer samplu a mesur $PM_{10}$ fydd y dull a ddisgrifir yn EN 12341 "Air Quality — Field Test Procedure to Demonstrate Reference Equivalence of Sampling Methods for the $PM_{10}$

(**19**) Gellir prynu copïau o'r cyhoeddiad hwn gan y Corff Safonau Rhyngwladol oddi wrth Adran Werthiannau Sefydliad Safonau Prydain "BSI" naill ai dros y ffôn ar 020 8996 9001 neu drwy'r post oddi wrth y BSI, Standards House, 389 Chiswick High Road, Llundain W4 4AL.

(**20**) Gellir prynu copïau o'r cyhoeddiad hwn gan y Corff Safonau Rhyngwladol oddi wrth Adran Werthiannau Sefydliad Safonau Prydain "BSI" fel yn nhroednodyn (a) uchod.

(**21**) OJ L378, 31.12.1982, p.15.

(**22**) Gellir prynu copiau o'r cyhoeddiad hwn gan y Corff Safonau Rhyngwladol oddi wrth Adran Werthiannau Sefydliad Safonau Prydain "BSI" naill ai dros y ffôn ar 020 8996 9001 neu drwy'r post oddi wrth y BSI, Standards House, 389 Chiswick High Road, Llundain W4 4AL.

fraction of particulate matter"(**23**). Mae'r egwyddor fesur wedi'i seilio ar gasglu'r gyfran $PM_{10}$ o fater gronynnol amgylchynol ar hidlwr a darganfod y màs grafimetrig.

# RHAN V

## Dull cyfeirio ar gyfer samplu a dadansoddi bensen (C6H6)

Y dull cyfeirio ar gyfer samplu bensen fydd samplu pwmpio ar getrisen sorbent a ddilynir gan benderfyniad cromatograffig nwy.

# RHAN VI

## Dull cyfeirio ar gyfer dadansoddi carbon monocsid (CO)

Y dull cyfeirio ar gyfer mesur bensen fydd dull wedi'i seilio ar y dull sbectrometrig anwasgarol is-goch (NDIR).

ATODLEN 7 Rheoliad 10(6)

GWYBODAETH SYDD I'W CHYNNWYS YN Y CYNLLUN
NEU'R RHAGLEN AR GYFER GWELLA ANSAWDD AER

*Lleoli llygredd gormodol*

— rhanbarth
— dinas (map)
— gorsaf fesur (map, cyfesurynnau daearyddol).

*Gwybodaeth gyffredinol*

y math o barth (dinas, ardal ddiwydiannol neu wledig)

amcangyfrif o'r ardal lygredig ($km^2$) ac o'r poblogaethau sydd wedi'u datguddio i'r llygredd

data defnyddiol am yr hinsawdd

data perthnasol am y dopograffeg

digon o wybodaeth am y math o dargedau y mae angen eu diogelu yn y parth.

*Yr awdurdodau cyfrifol*

**3.** Enwau a chyfeiriadau'r personau sy'n gyfrifol am ddatblygu cynlluniau gwella a'u rhoi ar waith.

*Natur y llygredd a'i asesu*

— y crynodiadau a welwyd dros y blynyddoedd blaenorol (cyn gweithredu'r mesurau gwella)
— y crynodiadau a fesurwyd ers dechrau'r project

(**23**) Cyhoeddiad y "CEN", Sefydliad Safonau Ewrop, cyfeirnod BSEN 12341, sydd ar gael oddi wrth Sefydliad Safonau Prydain "BSI" fel ar gyfer troednodyn (b) uchod.

— y technegau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr asesu.

*Tarddiad y llygredd*

— rhestr o'r prif ffynonellau allyrru sy'n gyfrifol am y llygredd (map)
— cyfanswm yr allyriannau o'r ffynonellau hyn (tunelli y flwyddyn)
— gwybodaeth am lygredd sydd wedi'i fewnforio o ranbarthau eraill.

*Dadansoddiad o'r sefyllfa*

— manylion y ffactorau hynny sy'n gyfrifol am y gormodedd (trafnidiaeth, gan gynnwys trafnidiaeth ar draws ffiniau, ei ffurfiant)
— manylion y mesurau posibl ar gyfer gwella ansawdd yr aer.

*Manylion y mesurau neu'r projectau ar gyfer gwelliannau a oedd yn bodoli cyn 21 Tachwedd 1996*

— mesurau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol, rhyngwladol
— yr effeithiau a welwyd yn sgil y mesurau hynny.

*Manylion y mesurau neu'r projectau hynny a fabwysiadwyd gyda golwg ar leihau llygredd ar ôl 21 Tachwedd 1996*

— rhestr a disgrifiad o'r holl fesurau a nodwyd yn y project
— amserlen ar gyfer gweithredu
— amcangyfrif o'r gwelliant y bwriedir ei gael yn ansawdd yr aer ac o'r amser y disgwylir y bydd ei angen i gyrraedd yr amcanion hynny.

*Manylion y mesurau neu'r projectau sydd wedi'u cynllunio neu sy'n cael eu hymchwilio at y tymor hir.*

**9**

*Rhestr o'r cyhoeddiadau, y dogfennau, y gwaith, etc. a ddefnyddiwyd i gydategu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn yr Atodlen hon.*

**10**

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r rheoliadau hyn yn gweithredu, yng Nghymru, Gyfarwyddeb y Cyngor 96/62/EC ynghylch asesu a rheoli ansawdd aer amgylchynol, Cyfarwyddeb y Cyngor 99/30/EC ynghylch gwerthoedd terfyn ar gyfer sylffwr deuocsid, nitrogen deuocsid ac ocsidau nitrogen, mater gronynnol a phlwm mewn aer amgylchynd, a Chyfarwyddeb y Cyngor 2000/69/EC ynghylch gwerthoedd terfyn ar gyfer bensen a charbon monocsid mewn aer amgylchynol.

Maent yn disodli Rheoliadau Gwerthoedd Terfyn Ansawdd Aer (Cymru) 2001 (O.S. 2001/2683) (Cy. 224), a oedd yn rhoi Cyfarwyddebau'r Cyngor 96/62/EC a 99/30/EC ar waith yn effeithiol o 19 Gorffennaf 2001 ymlaen.

Mae rheoliad 3 yn dynodi Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol") fel yr awdurdod cymwys ar gyfer gweithredu Erthygl 3 (gweithredu a chyfrifoldebau) o Gyfarwyddeb y Cyngor 96/62/EC.

Mae rheoliad 4 yn gosod dyletswydd ar y Cynulliad Cenedlaethol i gymryd y mesurau sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau na fydd ym mhob parth yng Nghymru grynodiadau o sylffwr deuocsid, nitrogen deuocsid ac ocsidau nitrogen, mater gronynnol, plwm, bensen a charbon monocsid ("y llygrynnau perthnasol") yn uwch na'r gwerthoedd terfyn. Nodir gwerthoedd terfyn pob llygryn, ac erbyn pa bryd y mae'n rhaid eu cyrraedd, yn Atodlen 1.

Mae rheoliad 5 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod yr aer amgylchynol yn cael ei asesu ar gyfer pob parth.

Mae rheoliad 6 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol ddosbarthu pob parth mewn perthynas â phob un o'r llygrynnau perthnasol. Mae'n darparu, ynghyd ag Atodlen 2, ar gyfer pennu'r trothwyon asesu uchaf ac isaf ar gyfer pob llygryn perthnasol. Mae rheoliad 6 hefyd yn nodi'r gofynion ar gyfer mesur ansawdd aer, neu ei asesu fel arall, yn dibynnu ar lefelau'r llygredd mewn perthynas â'r trothwyon hyn. Mae hefyd yn darparu ar gyfer dynodi parthau nad yw'n ofynnol cael rhaglenni gweithredu ar eu cyfer mewn amgylchiadau penodol, er bod sylffwr deuocsid neu ronynnau yn y parthau hynny yn uwch na'r gwerthoedd terfyn.

Mae rheoliad 7 yn gosod dyletswydd ar y Cynulliad Cenedlaethol i adolygu dosbarthiad y parthau bob pum mlynedd neu os ceir newidiadau arwyddocaol sy'n effeithio ar lefelau unrhyw un o'r llygrynnau perthnasol.

Mae rheoliad 8 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod dulliau penodedig yn cael eu defnyddio i asesu ansawdd yr aer ar gyfer pob llygryn ym mhob parth. Mae Atodlen 3 yn nodi sut y mae'n rhaid pennu'r pwyntiau samplu ar gyfer y llygrynnau perthnasol. Mae Atodlen 4 yn nodi'r meini prawf ar gyfer isafswm nifer y pwyntiau samplu ar gyfer mesuriadau sefydlog i asesu cydymffurfedd â'r gwerthoedd terfyn mewn parthau lle nad oes unrhyw ffynhonnell wybodaeth arall, ac â gwerthoedd terfyn ar gyfer diogelu ecosystemau neu lystyfiant mewn parthau penodol eraill. Yn Atodlen 5 gwneir darpariaeth ar gyfer amcanion ansawdd data ar gyfer cywirdeb angenrheidiol y dulliau asesu, ac ar gyfer llunio canlyniadau'r asesiadau ansawdd aer. Mae Atodlen 6 yn rhagnodi'r dulliau cyfeirio ar gyfer dadansoddi'r llygrynnau perthnasol, eu samplu neu eu mesur. Mae rheoliad 8(7) yn gosod dyletswydd ar y Cynulliad Cenedlaethol i sicrhau bod gorsafoedd mesur yn cyflenwi data ar grynodiadau mater gronynnol $PM_{2.5}$.

Mae rheoliad 9 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol lunio cynlluniau gweithredu sy'n nodi mesurau sydd i'w cymryd yn y tymor byr os oes risg o fynd yn uwch na'r gwerthoedd terfyn ar gyfer unrhyw un o'r llygrynnau perthnasol, neu'r trothwyon rhybuddio ar gyfer sylffwr deuocsid neu nitrogen deuocsid. Nodir trothwyon rhybuddio sylffwr deuocsid a nitrogen deuocsid ym mharagraff 1.2 o Ran I a pharagraff 2.2 o Ran II o Atodlen 1, yn y drefn honNo.

Mae rheoliad 10 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol lunio rhestrau o barthau lle mae lefelau un neu ragor o'r llygrynnau perthnasol yn uwch na'r gwerth terfyn, neu rhwng y gwerth terfyn ac unrhyw oddefiant a ddangosir yn Atodlen 1. Ar gyfer parthau o'r fath, mae rheoliad 10 yn gosod dyletswydd ar y Cynulliad Cenedlaethol i lunio cynllun neu raglen, y mae'n rhaid iddynt gynnwys o leiaf yr wybodaeth a nodir yn Atodlen 7 (gan gynnwys lleoliad a tharddiad y llygredd, yr awdurdodau cyfrifol a'r mesurau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r llygredd).

Mae rheoliad 11 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol restru parthau lle mae lefelau'r llygrynnau perthnasol o dan y gwerthoedd terfyn, a hynny er mwyn sicrhau bod lefelau'r llygrynnau hyn yn cael eu cadw o dan y gwerthoedd terfyn, ac er mwyn ymdrechu i gadw'r ansawdd aer amgylchynol orau sy'n gydnaws â datblygu cynaliadwy.

Mae rheoliad 12 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau y trefnir bod yr wybodaeth ddiweddaraf am grynodiadau amgylchynol pob un o'r llygrynnau perthnasol ar gael i'r cyhoedd, a hynny fel rhan o'r drefn. Mae'n rhagnodi amlder a chynnwys yr wybodaeth hon. Os eir yn uwch na'r trothwyon rhybuddio ar gyfer sylffwr deuocsid neu nitrogen deuocsid, rhaid darparu gwybodaeth bellach, a nodir ym mharagraffau 1.3 o Ran I a 2.3 o Ran II o Atodlen 1. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys manylion lle ac amser y digwyddiad, rhagolygon, a'r rhagofalon sydd i'w cymryd gan boblogaethau sensitif.

Mae rheoliad 13 yn diddymu Rheoliadau Gwerthoedd Terfyn Ansawdd Aer (Cymru) 2001. Mae hefyd, ar gyfer Cymru, ac ar y dyddiadau a bennir, yn diddymu rhannau o Reoliadau Safonau Ansawdd Aer 1989; cafodd rhannau eraill o'r rheoliadau hynny eu diddymu gan Reoliadau Gwerthoedd Terfyn Ansawdd Aer (Cymru) 2001. Yr oedd Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer 1989, fel y'u diwygiwyd gan O.S. 1995/3146, yn gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 80/779/EEC ynghylch gwerthoedd terfyn ansawdd aer a chanllawiau ar gyfer sylffwr deuocsid a gronynnau mewn daliant; Cyfarwyddeb y Cyngor 82/884/EEC ynghylch gwerth terfyn ar gyfer plwm yn yr aer; a Chyfarwyddeb y Cyngor 85/203/EEC ynghylch safonau ansawdd aer ar gyfer nitrogen deuocsid. Mae'r Cyfarwyddebau hyn wedi'u diddymu, gyda darpariaethau trosiannol hyd at 2005 a 2010, gan Gyfarwyddeb y Cyngor 99/30/EC.

Lle y cymerodd y Cynulliad Cenedlaethol gam o dan Reoliadau Gwerthoedd Terfyn Ansawdd Aer (Cymru) 2001, o dan ddarpariaeth o'r Rheoliadau hynny sydd wedi ei hailddeddfu gan y Rheoliadau hyn, mae i'w drin fel cam sydd wedi ei gymryd o dan y Rheoliadau hyn. Er enghraifft, mae'r dosbarthu parthau o ran llygrynnau perthnasol a wnaed o dan reoliad 5 o Reoliadau 2001 i'w drin fel pe bai wedi'i wneud o dan reoliad 6 o'r Rheoliadau hyn. Mae'r ddyletswydd i adolygu'r dosbarthiad hwnnw bob 5 mlynedd felly yn gymwys drwy gyfeirio at ddyddiad y dosbarthu gwreiddiol.

Mae nifer o ddarpariaethau yn y ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli yn rhoi pwerau i gyrff cyhoeddus sy'n berthnasol ar gyfer cyrraedd y gwerthoedd terfyn ar gyfer sylffwr deuocsid, nitrogen deuocsid ac ocsidau nitrogen, mater gronynnol, plwm, bensen a charbon monocsid yn yr aer amgylchynol. Dyma'r mwyaf nodedig ohonynt—

**1.** Darpariaethau sy'n rhoi pŵer i'r awdurdodau lleol—

(a) ynghylch "local air quality management" o dan Ran IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p.25);

(b) ar gyfer rheoli allyriannau mwg o dan Ddeddf Aer Glân 1993 (p.11);

(c) ar gyfer cymryd materion ansawdd aer i ystyriaeth wrth wneud cynlluniau ar gyfer cynllunio defnyddio tir a thrafnidiaeth;

(ch) ar gyfer rheoli twf traffig ac ar gyfer rheoli traffig, o dan Ddeddf Lleihau Traffig Ffyrdd 1997 (p.54), Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (p.27) a Deddf Traffig Ffyrdd 1991 (p.40).

**2.** Rheoli allyriannau diwydiannol—

(a) gan awdurdodau lleol drwy gyfrwng "local air pollution control" a chan Asiantaeth yr Amgylchedd o dan "integrated pollution control" o dan Ran I o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (p.43);

(b) gan Asiantaeth yr Amgylchedd a'r awdurdodau lleol drwy ddefnyddio "integrated pollution prevention and control" o dan Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999 (p.24) a Rheoliadau Atal a Rheoli Llygredd (Cymru a Lloegr) 2000 (O.S. 2000/1973).

**3.** Rheoli allyriannau trafnidiaeth

Mae cyfres o reoliadau ar allyriannau cerbydau sy'n trawsosod Cyfarwyddebau'r EC yn gosod terfynau ar allyriannau cerbydau gan gynnwys: O.S. 1992/2137 (sy'n ymdrin â chyfarwyddebau 91/441/EEC a 91/542/EEC); O.S. 1993/2199 (sy'n ymdrin â chyfarwyddeb 93/59/EEC); O.S. 1995/2210 (sy'n ymdrin â chyfarwyddeb 94/12/EC); O.S. 1997/1544 (sy'n

ymdrin â chyfarwyddeb 96/69/EC) ac O.S. 2000 /3197 (sy'n ymdrin â chyfarwyddeb 98/69/EC). Pennwyd safonau amgylcheddol ar gyfer tanwydd ym 1994 (O.S. 1994/2295) a 1999 (O.S. 1999/3107).

Nodir disgrifiad llawn o'r holl fesurau y ceisir cyrraedd y gwerthoedd terfyn drwyddynt yn “Air Quality Strategy for England, Scotland, Wales and Northern Ireland” a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau, Gweithrediaeth yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon, Ionawr 2000 (Cm. 4548).